Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Mwynglawdd mor hen â'r pyramidiau

**Tro cymedrol o gwmpas y Gogarth uwchben Llandudno**

**Hyd: 2 awr - Cerdded cymedrol - anodd**

DILYNWCH Y STORI: Dowch o hyd i fwy o gynhanes a hanes yr ardal hon drwy ymweld ag **Amgueddfa Llandudno** ar Stryd Gloddaeth. Mae'r amgueddfa'n cynnwys hologram o'r gwaith celf hynaf o Gymru, darn addurnedig o ên ceffyl yn dyddio o Oes yr Iâ.

Dechreuwch yng **Nghanolfan Groeso Llandudno (1)** sydd wedi ei lleoli yn adeilad y llyfrgell ar Stryd Mostyn. Yma y dowch o hyd i arddangosfa Ein Treftadaeth yn cynnig gwybodaeth am safleoedd i ymweld â hwy yn yr ardal. Anelwch am lan y môr a **Phier Llandudno (2)**. Defnyddiwyd y pier, a agorwyd yn Awst 1877, i ddadlwytho llongau stemar o Lerpwl ac Ynys Manaw. Disgrifiwyd pier Llandudno, gyda'i waith haearn addurnedig coeth, fel 'Palas y Maharajah.'


Wedi ymweld â'r Pier bydd llwybr eich taith yn mynd â chi ar hyd Rhodfeydd yr Eglwys i **Dramffordd y Gogarth (3)**, yr unig dramffordd sy'n cael ei gweithredu gan gebl ym Mhrydain. Rhaid i deithwyr newid tram yng ngorsaf Hanner Ffordd. Bu'r tramffordd yn difyrru ymwelwyr ers ei agor yn 1902.

Yn yr orsaf hanner ffordd cymerwch y cyfle i fynd am dro i weld un o'r darganfyddiadau archeolegol pwysicaf a wnaed erioed yn Ynysoedd Prydain – **Mwyngloddiau Copr Oes Efydd y Gogarth (4)** sy'n dyddio'n ôl 4,000 o flynyddoedd. Ewch yn ôl ar y tram i fyny i **Orsaf y Copa (5)** ac, ar ôl edmygu'r golygfeydd, dilynwch y llwybr sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r car cebl nes y gallwch weld **Eglwys St Tudno (6)** islaw.

Ewch yn ôl at y ffordd a cherdded i lawr drwy erddi'r Fach (Happy Valley) ac yn ôl i'r Pier.



Gwaith Copr Pen y Gogarth
© Ein Treftadaeth




Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2014

Mae "Ein Treftadaeth" yn rhan o Brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhagor o gefnogaeth drwy Gyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.